CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 22

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ MA-KW-2320-20

Lynne Neagle AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Medi 2020

Annwyl Lynne

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch y diwygiadau rydym yn eu gwneud er mwyn trawsnewid y system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) bresennol i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. Fel y gwyddoch, bydd y system ADY yn canolbwyntio ar sicrhau bod cymorth pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddiwallu ei anghenion yn cael cymorth a gynlluniwyd ar eu cyfer a bod hwnnw wedi'i ddiogelu. Mae'r diwygiadau yn rhoi'r lle canolog i'r dysgwr a'i rieni, neu ei ofalwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyrraedd ei lawn botensial.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd iawn i bob un ohonom oherwydd y pwysau a'r tarfu a achoswyd gan bandemig Covid-19. Fodd bynnag, mae gweithredu'r Ddeddf ADY yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi'n bersonol ac i'r llywodraeth. Mae fy swyddogion yn parhau i ddiwygio'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau gweithredu, a'm bwriad yw gosod y rhain gerbron y Senedd ym mis Chwefror 2021.

Nid yw'r amserlen ar gyfer cychwyn gweithredu'r system ADY newydd wedi newid. Mae'n dal yn fwriad cychwyn y swyddi statudol (Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg, a Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar) ym mis Ionawr 2021, a chychwyn rhoi gweddill y system newydd ar waith yn raddol o fis Medi 2021 ymlaen.

I gyd-fynd â chychwyn y rolau statudol, rwy'n bwriadu gosod rheoliadau ynghylch rôl y Cydlynydd ADY a chyhoeddi canllawiau ar bob un o'r tair rôl statudol o dan y system ADY newydd. Bydd y canllawiau yn cynnwys testun o'r Cod diwygiedig sy'n ymwneud â'r rolau hyn a byddant yn rhoi eglurder o ran eu cyfrifoldebau. Bydd y canllawiau a'r rheoliadau yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd eisoes ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau ynghylch rôl y Cydlynydd ADY. Er mwyn helpu i roi'r Ddeddf ar waith o fis Medi 2021, darperir gwybodaeth hefyd ynghylch y trefniadau gweithredu a phontio.


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education